# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Chwefror 6ed 2024 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Eifion Davies (cadeirydd), Bethan Thomas, Rita Jones, Eilir Rowlands, Gary Thomas, Alwyn Jones, Iolo Evans, Gwenda Evans, Dewi Pritchard, Maldwyn Jones, Meilir Jones, Gwynedd Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwenda Morris.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Tachwedd 7fed 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Partneriaeth Penllyn – cost torri llwybrau troed. **Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai cynrychiolwyr y Cyngor yn trafod y mater yng nghyfarfod nesaf y Bartneriaeth ac ymadrodd yn nol i'r Cyngor cyn gwneud penderfyniad terfynol.**
c) Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog - prosiect gwelliannau i'r mynwentydd. **Roedd cais y Cyngor wedi bod yn llwyddianus ac roedd yr arian wedi cael ei dalu i mewn i gyfrif banc y Cyngor eisoes. Roedd y clerc wedi cyfarfod gyda'r contractwr coed i drafod cychwyn y gwaith. Cytunwyd i roi'r gwaith clirio i SW Jones.**
ch) Gwasanaeth bws T3.

<u>iv) Gohebiaeth</u>
i) Un Llais Cymru - Dibenion gwariant y dyfodol ar gyfer arian asedau segur yng Nghymru.
ii) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Gwylio Cyflymder Cymunedol.
iii) OpenReach – Cynllun uwchraddio cysylltedd rhyngrwyd pentref Llandderfel. **Cafwyd adroddiad o hyn a drafodwyd yn y cyfarfod diweddar yn Llandderfel a cytunwyd i geisio lledaenu'r neges gyda chymdeithasau lleol a gosod erthygl ym Mhethe Penllyn.**
iv) Menter Iaith Gwynedd – Taith y Fenter Iaith – digwyddiad yng Nghanolfan Henblas, 21/02/24.

<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>
a) NP5/63/283 – Gosod twr dellt 30m yn cynnal 6 antena, 4 dysgl trwayrru, 4 cabinet offer ayyyb. Tir yng Nghoed Cae Celyn, Capel Celyn.
b) C24/0061/04/DT – Codi estyniad deulawr i gefn yr annedd. Tŷ Capel Soar, Maerdy.

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.**

<u>vi) Materion Ariannol.</u>
<u>a) Penodi Archwiliwr Mewnol -</u> **Cytunwyd i benodi uned archwilio fewnol Cyngor Gwynedd.**

<u>b) Archwilio Cymru - Cynllun Ffioedd 2024-25.</u>

<u>c) Adroddiad Ariannol (Hydref-Rhagfyr)</u> - **Cymeradwywyd**

<u>ch) Derbyniadau.</u>
i) Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog - £7,965.87 (prosiect gwelliannau i'r mynwentydd).

<u>d) Taliadau</u>
i) Bin gwastraff gardd (ad-daliad i'r clerc) – c**ymeradwywyd.**

<u>dd) Cyfraniadau Ariannol.</u>
i) Eisteddfod Llandderfel, Urdd Gobaith Cymru – Meirionnydd, Llen y Llannau a Dawns i Bawb - -
**cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

<u>vii) Materion lleol.</u>
a) Problemau parcio pentref Llandderfel.

b) B5401, ger Hafod y Bryn – difrod i gerbydau.
c) Diogelwch ar yr A494 Llanfor – **cytunwyd i anfon ar Lywodraeth Cymru eto i ddatgan pryderon y Cyngor.**
ch) Lloches bws Frongoch.
**d) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH, MAWRTH 5ED YN NEUADD MYNACH.**